

GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR GWYNEDD
(GWAHARDDIAD AROS)
(Y GLYN LLANBERIS) 2021

Ar y 14^{eg} dydd o Ebrill, 2021 gwnaed y gorchymyn uchod gan Gyngor Gwynedd o dan Adran 9 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 fel y newidiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1994. Daw'r Gorchymyn i rym ar y 30^{ain} o Ebrill 2021 a bydd yn parhau mewn grym dim hwy na 18 mis.

Pan ddaw'r Gorchymyn i rym ar y 30^{ain} o Ebrill, 2021 ei effaith fydd:-

1. Gwahardd cerbydau rhag aros unrhyw amser ar yr ochrau darnau ffyrdd a bennir yn yr Atodlen Gyntaf isod.
2. Bydd eithriadau yn caniatáu aros o dan rhai amgylchiadau fel y nodi'r yn y Gorchymyn.

Mae'r Gorchymyn, ynghyd â chynlluniau yn dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt a Datganiad o Resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ond, nodwch, oherwydd y pandemig COVID 19, gallwch ond gael copïau papur drwy anfon cais drwy e-bost i gwenanthomas@gwynedd.llyw.cymru neu drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod, neu drwy ffonio 01286 679342 yn ystod oriau gwaith arferol. Mae manylion llawn y gorchymyn hefyd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Gorchymynion-Rheoleiddio-Traffig.aspx>

Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried maes o law a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn Arbrofol gael eu gwneud am gyfnod amhenodol. Os dymuna unrhyw berson wrthwynebu gwneud y Gorchymyn am gyfnod amhenodol dylid anfon gwrthwynebiadau mewn ysgrifen gan fynegi eich rhesymau dros wneud hynny i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i gwenanthomas@gwynedd.llyw.cymru ddim hwyrach na chwe mis o'r 21^{ain} o Ebrill 2021, neu os yw'r Gorchymyn Arbrofol yn cael ei amrywio gan Orchymyn arall neu yn cael ei newid o ganlyniad i adran 10(2) o Ddeddf 1984 yna chwe mis o ddyddiad daeth yr amrywiad neu'r newid neu'r amrywiad neu'r newid diweddaraf i rym.

Os dymuna unrhyw berson amau dilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn neu unrhyw gymal ohono gellir gwneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r 21^{fed} o Ebrill 2021, i'r perwyll hwnnw.

ATODLEN GYNTAF

GWAHARDDIAD AROS

Y GLYN- LLANBERIS

Ffordd Ddi-ddosbarth:-

Ymestyn y llinellau melyn presennol ar ochr orllewinol y ffordd ger ei chyffordd â'r A4086 i'w chyffordd â'r Ffordd Ystâd Ddiwydiannol bellter o oddeutu 139 metr.	Dim aros ar unrhyw adeg
--	-------------------------

Ymestyn y llinellau melyn dwbl presennol ar ochr orllewinol y ffordd o'i chyffordd â'r Ffordd Ystâd Ddiwydiannol am bellter o oddeutu 130 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg
--	-------------------------

Ar ochr orllewinol y ffordd o bwynt o oddeutu 183 metr o'r gyffordd â Ffordd yr Ystâd Ddiwydiannol am bellter o oddeutu 80 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg
---	-------------------------

Ar ochr orllewinol y ffordd y tu allan i'r toiledau cyhoeddus am bellter o oddeutu 62 metr i gyfeiriad y de-ddwyrain.	Dim aros ar unrhyw adeg
---	-------------------------

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd ar y naill ochr i'w gyffordd â'r maes parcio gogleddol.	Dim aros ar unrhyw adeg
--	-------------------------

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o bwynt oddeutu 55 metr o'i gyffordd â'r maes parcio gogleddol am bellter o oddeutu 31 metr i gyfeiriad y de-ddwyrain.	Dim aros ar unrhyw adeg
---	-------------------------

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o bwynt oddeutu 45 metr o'i chyffordd â'r maes parcio gogleddol am bellter o oddeutu 36 metr i gyfeiriad y de-ddwyrain.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o'i fynedfa i'r maes Parcio deheuol am bellter o oddeutu 80 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o'i fynedfa i'r maes parcio deheuol am bellter o oddeutu 42 metr i gyfeiriad de-ddwyreiniol.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn â'i chyffordd â'r Ystâd Ddiwydiannol gan ymestyn y cyfyngiad presennol am bellter o oddeutu 12 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn â'i chyffordd â'r Ystâd Ddiwydiannol gan ymestyn y cyfyngiad presennol am bellter o oddeutu 40 metr i gyfeiriad y de-ddwyrain.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ymestyn y llinellau melyn presennol ar ochr ddwyreiniol y ffordd ger ei chyffordd â'r A4086 am bellter o oddeutu 48 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.	Dim aros ar unrhyw adeg

YSTÂD DDIWYDIANNOL Y GLYN LLANBERIS

Ffordd Di Ddosbarth:-

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd o'i chyffordd gyda Y Glyn yn ei chyfanrwydd.	Dim aros ar unrhyw adeg
Ar ochr orllewinol y ffordd o'i chyffordd gyda Y Glyn yn ei chyfanrwydd.	Dim aros ar unrhyw adeg

DYDDIEDIG: 21^{fed} o Ebrill 2021.

Iwan G D Evans LLB (Anrh) PG.Cert. Dip.L.G
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH
Am fwy o fanylion ynglŷn â'r uchod ffoniwch y Gwasanaeth Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau
01286 679650 (CAT-3775GT)